

# Cofnodion



## Pwyllgor Safonau

---

Dyddiad: Dydd Iau, 10 Mawrth 2022

Amser: 5.30 pm

Bresennol: Cyngorwyr Davies, D Wilcox, P Hourahine, A Mitchell (Cadeirydd), Watkins (Dirprwy Gadeirydd) and Worthington

Ymddiheuriadau: Cyngorwyr

---

### 1 Ymddiheuriadau dros Absenoldeb

Dim.

### 2 Agenda - Cym

### 3 Datganiadau o ddiddordeb

Dywedodd y Cyngorwyr Hourahine wrth y pwyllgor y gallai rhai o'r pynciau a drafodir fod yn berthnasol pe bai'n cael ei ailethol.

### 4 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Gofynnodd Dr Richard Morgan i'r camgymeriad sillafu ym mharagraff 3 o fewn eitem 7 gael ei gywiro o "WGLA" i "WLGA". Yn amodol ar y cywiriad hwn, derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Ionawr 2022 yn gofnod gwir a chywir.

### 5 Materion yn codi

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw ddiweddariadau ynglŷn â'r cwynion. Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau wrth y pwyllgor y byddai diweddariad a chwynion newydd yn cael eu cyflwyno dan eitem 6.

### 6 Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Dim.

### 7 Cwynion

Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau wrth y pwyllgor fod 3 chwyn newydd wedi eu codi i'r Ombwdsmon, dau'n ymwneud â Chynghorau Cymuned ac un yn ymwneud â Chynghorydd Dinas. Nododd Pennaeth y Gyfraith a Safonau fod un honiad o ymddygiad amharchus, un gŵyn a adroddwyd gan Glerc ar ran y Cyngor am gynghorydd cymuned a gafwyd yn euog o drosedd a'i fod yn teimlo dan y Cod Ymddygiad fod yr euogfarn wedi dwyn anfri ar y swyddfa a'r Cyngor. Nododd Pennaeth y Gyfraith a Safonau fod gan y gŵyn ynglŷn â'r Cynghorydd Dinas 3 agwedd; yn gyntaf, torri ymddiriedaeth gan fod cyfeiriad e-bost yr

achwynydd wedi'i gynnwys mewn e-bost cylchol at lawer o etholwyr ac roedd yr achwynydd yn teimlo nad oedd wedi cydsynio i hyn. Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad, er ei fod yn doriad yn dechnegol, wrth gymhwyso'r prawf dau gam, nad oedd yn doriad digon difrifol ac nid oedd o'r farn y byddai ymchwilio iddo er budd y cyhoedd. Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau wrth y pwyllgor fod yr ail agwedd yr oedd yr achwynydd wedi'i chodi'n broblem gyda thôn e-byst y Cynghorydd a bod methiant i ddangos parch. Teimlai'r Ombwdsmon nad oedd yn amharchus ac felly nid oedd yn cynnal y gŵyn hon. Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau wrth y pwyllgor mai'r drydedd agwedd oedd y ffordd yr oedd y Cynghorydd yn delio â chwynion wardiau a daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod y ffordd y cyflawnir dyletswyddau gan Gynghorydd yn fater rhwng etholwr a'i bleidlais, ac felly ni fyddai'r Ombwdsmon yn ymchwilio ymhellach i hyn. Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau wrth y pwyllgor fod 5 cwyn yn weddill i'r Ombwdsmon ymchwilio iddynt, ac roedd pob un ohonynt yn ymwneud â Chynghorau Cymuned.

## **8 Adborth o Gynhadledd Safonau Cymru Gyfan**

Nododd Pennaeth y Gyfraith a Safonau fod y Gynhadledd yn un werth chweil yr aeth llawer o bobl iddi a theimlodd ei bod yn ddefnyddiol dysgu o brofiadau pwyllgorau eraill a chadeiryddion pwyllgorau safonau. Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau wrth y pwyllgor fod Richard Penn wedi mynychu ac egluro rhai o'r argymhellion a'r casgliadau a ddaeth yn sgil ei adroddiad yn ogystal â'r Ombwdsmon Nick Bennet a fyfyrodd ar orfodi'r fframwaith rheoleiddio. Eglurodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau ei fod yn teimlo yn ystod y Gynhadledd fod diffyg awydd gan Lywodraeth Cymru i ddeddfu yn dilyn adroddiad Richard Penn cyn y cyfnod etholiadau, a oedd yn gyfle a gollwyd yn ei farn ef. Nododd Pennaeth y Gyfraith a Safonau y bu cynnig/argymhelliad byrfyfyr bod mynychwyr y Gynhadledd yn teimlo y dylid gweithredu argymhellion yr adroddiad cyn gynted â phosibl. Nododd Pennaeth y Gyfraith a Safonau fod teimladau cymysg ynglŷn â materion eraill yn deillio o'r adroddiad, gan gynnwys gwaith yn cael ei gyfeirio yn ôl yn lleol i ymchwilio a chynnal gwrandawiadau gyda'r Ombwdsmon yn dal i ddelio â chwynion mwy difrifol er bod hyn oherwydd adolygiad tymor hwy gan Lywodraeth Cymru. Eglurodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau fod consensws bod y system yn gweithio'n dda yng Nghymru a bod cymeradwyaeth i adroddiad Richard Penn. Cytunodd Mrs Nurton fod nifer dda o bobl yn bresennol yn y Gynhadledd a'i bod yn fforwm da ar gyfer trafod a rhwydweithio rhwng awdurdodau. Nododd Mrs Nurton fod cyflwyniad cadeirydd Pwyllgor Safonau Gwynedd yn ddiddorol a chytunodd fod angen diweddarau rhannau o'r Cod Ymddygiad. Dywedodd Mrs Nurton wrth y pwyllgor fod Paul Egan o Un Llais Cymru wedi mynychu a siarad am yr hyfforddiant sy'n cael ei gynnig i Gynghorau Cymuned, yn ogystal â Lisa James o Lywodraeth Cymru. Nododd Mrs Nurton fod y Cyngor wedi cofrestru i gefnogi addewid Etholiad Teg ar gyfer ymgeiswyr a'u canfasio yn ystod y Cyfnod Cyn Etholiadau a dywedodd wrth y pwyllgor fod datganiad ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd yn esbonio'r hyn a ddisgwylir gan ymgeiswyr. Nododd Dr Richard Morgan rwystredigaeth o ran Llywodraeth Cymru yn peidio â gweithredu argymhellion adroddiad Richard Penn cyn yr etholiadau, ond teimlai ei bod yn Gynhadledd addysgiadol. Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau wrth y pwyllgor fod y Gynhadledd yn ddigwyddiad blynyddol ac er nad oedd wedi digwydd drwy gydol cyfnod clo Covid-19, mae'n debygol y byddai'n parhau i gael ei chynnal o bell.

## **9 Canllawiau Statudol Drafft - Safonau Ymddygiad**

Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau wrth y pwyllgor fod hwn yn ddarn sylweddol o ganllawiau drafft. Nododd Pennaeth y Gyfraith a Safonau fod Deddf Etholiadau Llywodraeth Leol Cymru wedi newid cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau ac arweinwyr grwpiau gwleidyddol. Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau wrth y pwyllgor fod Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar sut roedd y 4 dyletswyddau hyn yn cael eu cyflawni a'u bod ar hyn o bryd yn gwahodd sylwadau ar y canllawiau drafft hyn erbyn 16 Mai 2022.

Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau wrth y pwyllgor fod dyletswydd ar arweinwyr grwpiau i hyrwyddo a chynnal safonau moesegol o fewn eu grwpiau yn dilyn y newid.

Ychwanegodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau fod dyletswydd arnynt hefyd i gydweithio gyda'r Pwyllgor Safonau a bod gan y pwyllgor ddyletswydd i fonitro sut mae arweinwyr yn rheoli'r dyletswyddau hyn. Nododd Pennaeth y Gyfraith a Safonau y bydd gan y Pwyllgor ddyletswydd hefyd i gyflwyno adroddiad blynyddol, ond mae'r adroddiad y mae eisoes yn ei gyflwyno yn bodloni hyn.

Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau wrth y pwyllgor fod y canllawiau yn rhoi hyblygrwydd i arweinwyr ar sut y maent yn cyflawni eu dyletswyddau ac ni fydd arweinwyr grwpiau'n atebol am unrhyw gamymddwyn gan aelodau unigol o'u grwpiau ond byddant yn gyfrifol am hyrwyddo diwylliant cadarnhaol a dangos esiampl dda i'r Aelodau.

Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau wrth y pwyllgor fod yn rhaid gwneud penderfyniad wedyn ynghylch sut mae arweinwyr grwpiau'n gweithio gyda'r pwyllgor i gyflawni'r ddyletswydd hon a'r awgrym yn yr adroddiad oedd llythyr at y pwyllgor ar gynnydd a gweithredu'r dyletswyddau hyn. Awgrymodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau y gallai Cadeirydd y Pwyllgor Safonau gwrdd ag arweinwyr grwpiau i drafod cynnydd a gweithredu'r dyletswyddau hyn. Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau wrth y pwyllgor fod yn rhaid sicrhau diweddariad o fewn 6 mis i'r etholiad ac adolygiad yn flynyddol, a bydd rhwymedigaeth i egluro i'r Cyngor sut mae'r ddyletswydd hon yn cael ei chyflawni. Ychwanegodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau fod yn rhaid i arweinwyr grwpiau dderbyn hyfforddiant ar y dyletswyddau hyn.

Ailadroddodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau y dylai'r adroddiad blynyddol presennol gyflawni'r gofyniad a nodir yn y ddeddfwriaeth, ond efallai y bydd angen adolygu amseru'r adroddiad sy'n cael ei gyflwyno gan gyd-fynd â'r flwyddyn ariannol a'r rhaglen waith. Ychwanegodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau y dylid anfon copi hefyd at yr Ombwdsmon ac at bob Cyngor Cymuned yng Nghasnewydd. Nododd Pennaeth y Gyfraith a Safonau fod yr ymgynghoriad yn gofyn yn bennaf a yw'r canllawiau'n glir ac yn esbonio'n ddigonol y dyletswyddau newydd hyn a sut y byddant yn cael eu cyflawni. Nododd Pennaeth y Gyfraith a Safonau mai cyfrifoldeb y pwyllgor oedd llunio unrhyw sylwadau. Teimlai'r Cadeirydd ei bod yn bwysig i'r pwyllgor gyfrannu at yr ymgynghoriad hwn. Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolchgarwch am y sylfeini a osodwyd gan yr adroddiad a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at weithio gydag arweinwyr i sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan y pwyllgor unrhyw sylwadau.

Nododd Mr Watkins fod angen rhoi mecanwaith ar waith ar gyfer y Pwyllgor Safonau ac arweinwyr grwpiau ynghylch dyddiadau ac amseroedd cyfarfodydd, adroddiadau a materion y gellir eu codi. Nododd Pennaeth y Gyfraith a Safonau fod y ddyletswydd yn dod i rym cyn y canllawiau statudol. Ailadroddodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau fod cyfnod o 6 mis i ddarparu hyfforddiant, ond roedd hon yn broses barhaus. Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau y dylid cynllunio nawr ar gyfer sut a phryd y caiff cyfarfodydd ag arweinwyr grwpiau eu rhoi yn yr amserlen. Teimlai'r Cadeirydd pe bai arweinwyr grwpiau'n cael eu hyfforddi o fewn 6 mis i etholiadau, na fyddai'n fuddiol cwrdd â nhw i gael y wybodaeth ddiweddaraf o fewn yr amser hwnnw. Roedd y Cadeirydd yn awyddus i ddefnyddio'r model cyfarfodydd hybrid. Dywedodd y Cynghorydd Wilcox ei bod yn falch o weld canllawiau ar gyfer arweinwyr grwpiau, yn enwedig ar gyfer grwpiau llai nad ydynt o bosibl yn cael eu craffu cymaint â phleidiau mwy.

Teimlai'r Cynghorydd Wilcox y byddai dau gyfarfod i bob arweinydd grŵp y flwyddyn yn ddigonol, ac y byddai'n fuddiol i arweinwyr gyflwyno eu hadroddiad cyn eu cyfarfod fel y gallai'r Pwyllgor Safonau ddeall y wybodaeth orau a llunio unrhyw gwestiynau neu sylwadau. Ychwanegodd y Cynghorydd Wilcox y gallai fod yn well cwrdd ag arweinwyr grwpiau ar wahân a gwnaeth gynnig slotiau amser fesul cyfarfod ar gyfer pob arweinydd.

Gofynnodd y Cynghorydd Davies a oedd hyn yn berthnasol i Gynghorwyr Cymuned.

- Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau wrth y pwyllgor nad oedd y ddeddfwriaeth hon yn berthnasol i Gynghorau Cymuned. Ychwanegodd Mrs Nurton y gallai fod o fudd cael

cyfarfod rhagarweiniol rhwng arweinwyr grwpiau a'r Pwyllgor Safonau i sefydlu perthynas waith dda a gwneud grwpiau llai ac i sicrhau bod yr Aelodau annibynnol yn ymwybodol o'r Pwyllgor Safonau.

- Nododd Pennaeth y Gyfraith a Safonau y gall yr Aelodau annibynnol ffurfio grŵp hyd yn oed os nad ydynt yn gysylltiedig yn wleidyddol. Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau wrth y pwyllgor y dylai hyfforddiant gynnwys cyfrifoldeb pob arweinydd grŵp a dylai fod gan yr Aelodau ddealltwriaeth sylfaenol ond deallodd y pwynt y byddai'n fuddiol cael cyfarfod rhagarweiniol i esbonio'r gofynion. Roedd Pennaeth y Gyfraith a Safonau yn wyladwrus o greu dyletswyddau ar gyfer arweinwyr grwpiau a allai fod yn feichus ac awgrymodd fod potensial i gynnal cyfarfod i ddiweddar'u'r Pwyllgor ar gyfarfodydd o fewn y grwpiau. Awgrymodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau y gellid nodi hyn yn y cyfarfod rhagarweiniol yn ogystal â phroses. Teimlai Dr Worthington fod cydbwysedd da rhwng hyblygrwydd a chytunodd y byddai cyfarfod rhagarweiniol yn fuddiol. Gofynnodd Dr Worthington beth oedd y broses ar gyfer pryderon o fewn y broses flynyddol.
- Eglurodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau fod yr adroddiad blynyddol yn grynodedig o'r gwaith a wnaed yn y 12 mis blaenorol ac y byddai mater o safonau moesegol yn cael sylw wrth iddo ddigwydd. Nododd Pennaeth y Gyfraith a Safonau, pe bai unrhyw bryderon, cwynion lefel isel neu gwynion protocol datrys, y gellid gwahodd yr arweinydd grŵp i gyfarfod pwyllgor i drafod yr hyn sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn. Gofynnodd y Cynghorydd Hourahine a oedd protocol ar gyfer sut y byddai Aelodau etholedig yn parhau i wasanaethu ar y pwyllgor a mynegodd bryder ynghylch potensial gwleidyddoli'r pwyllgor.
- Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau wrth y pwyllgor fod dyletswydd ar wahân yn llwyr i wleidyddiaeth ac na fyddai, ac na ddylai wleidyddoli'r pwyllgor neu'r broses. Eglurodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau fod hyn yn ymwneud â hyrwyddo safonau ymddygiad uchel gyda'r nod o lenwi bylchau rhwng y pwyllgor a'r Aelodau gyda'u harweinydd grŵp priodol, y disgwyliad iddo ddangos yr esiampl honno a meddu ar y pŵer i ddisgyblu a hyrwyddo'r safonau uchel hyn. Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau fod hon yn broses wahanol o graffu gan ei bod yn ymwneud ag ymddygiad moesegol a hyrwyddo safonau moesegol uchel yn unig, a ddim yn ymwneud â dwyn arweinwyr i gyfrif am benderfyniadau na sut y cyflawnir eu rolau. Eglurodd y Cynghorydd Wilcox wrth y pwyllgor fod gan bleidiau safonau moesegol wedi'u hysgrifennu yn eu llyfrau rheolau, ond efallai na fydd hyn gan bleidiau llai nac Aelodau annibynnol felly teimlai fod hyn yn gam ymlaen wrth ddwyn pob Aelod i gyfrif yn foesebol. Gofynnodd Dr Morgan sut mae'r pwyllgor yn penderfynu bod arweinwyr grwpiau wedi cyflawni eu dyletswydd statudol a pha gosbau y caiff y pwyllgor eu rhoi.
- Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau wrth y pwyllgor y gofynnwyd y cwestiwn hwn pan gafodd y ddeddfwriaeth ei deddfu. Teimlai Pennaeth y Gyfraith a Safonau, er bod yr hyblygrwydd i'w groesawu, nad yw'n rhoi mwy o eglurder o ran cael gwybod a yw'r ddyletswydd wedi'i thorri. Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau nad yw'r cwestiwn hwn wedi'i ateb yn y canllawiau hyn.
- Teimlai Dr Morgan y gallai hyd yn oed weithredu'r ddyletswydd honno annog a dylanwadu ar arweinwyr grwpiau a'r Aelodau ond teimlai y gallai gorfodi yn ymarferol fod yn anodd. Cynigiodd y Cadeirydd y byddai cyfarfod rhagarweiniol yn cael ei gynnal 4 mis ar ôl yr etholiadau, gyda diweddiariad 6 mis ar ôl yr etholiadau. Gofynnodd Mr Watkins a fyddai pedwar mis i gyfarfod rhagarweiniol yn rhy hir. Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau wrth y pwyllgor y gallent edrych ar raglen o gyfarfodydd ar ôl mis Mai a theimlai fod cyfarfod mis Gorffennaf ar gyfer cyflwyniadau yn ymddangos yn rhesymol.
- Cytunodd y Cadeirydd â hyn. Gofynnodd y Cadeirydd a ddylai'r pwyllgor sefydlu proses ar gyfer y cyfarfod cyntaf i'w rhannu ag arweinwyr grwpiau.
- Atgoffodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau y pwyllgor y byddai'r cyfarfod cyntaf yn gyflwyniad ac na ddylai o reidrwydd ganolbwytio ar broses. Nododd Pennaeth y Gyfraith a Safonau y gallai'r pwyllgor gytuno ag arweinwyr grwpiau ar broses na fyddai'n feichus. Teimlai'r Cadeirydd y byddai hybrid yn ddewis da ar gyfer y cyfarfodydd hyn ac y byddai'n rhaid ystyried ymhellach brosesau a phrotocolau ar gyfer adroddiadau arweinwyr grwpiau.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd wrth y pwyllgor fod adborth wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gydag argymhellion i gael adborth. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd mai gofynion yr arolwg ymadael yw deall profiad Aelod a nodi unrhyw gyfleoedd i gynnig gwell cefnogaeth. Nododd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd fod hyn yn gysylltiedig â'r strategaeth cyfranogiad. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd mai'r prif heriau oedd bod llawer o feysydd cyffredin yn y cwestiynau a ofynnwyd, blinder arolwg ymysg yr Aelodau a chyfraddau ymateb. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd wrth y pwyllgor fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cytuno â'r arolygon hyn ac yn argymhell cyfuno arolygon mewnol. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd wrth y pwyllgor fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn teimlo efallai na fyddai'n ddefnyddiol gofyn cwestiynau i'r Aelodau ynghylch eu cyfnodau sefydlu a gynhaliwyd 5 mlynedd yn ôl ac y byddai'n well canolbwyntio ar hyfforddiant diweddar yn lle hynny.

Nododd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y byddai'r arolwg ymgeiswyr yn fyw o 28 Mawrth 2022 ac yna byddai arolwg terfynol yn cael ei lunio yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Dywedodd Mr Watkins nad oedd cwestiynau yn ymwneud â phresenoldeb o bell a gofynnodd a fyddai cynnwys hyn yn briodol i Aelodau newydd. Gofynnodd Mr Watkins a fyddai cwestiwn ynglŷn â hyfforddiant penodol i'r Aelodau yn fuddiol. Daeth Mr Watkins i ben drwy ychwanegu bod cyfraddau ymateb yn rhywbeth y gellid edrych arnynt.

- Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau wrth y pwyllgor, gan fod cyfarfodydd hybrid yn ofyniad deddfwriaethol ac y byddai gan yr Aelodau ddewis, na fyddai angen cael barn yr Aelodau ar hyn. Cytunodd Mrs Nurton y byddai blinder ymysg yr Aelodau'n broblem a gofynnodd a fyddai'r arolygon hyn yn cael eu dosbarthu'n electronig.
- Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y byddent yn cael eu rhannu'n electronig ac yn ddwyieithog i'r Aelodau eu llenwi pryd bynnag y gallent. Gofynnodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau am farn y pwyllgor ar gael un arolwg ymadael sy'n cyfuno'r holl gwestiynau.
- Dywedodd y Cynghorydd Wilcox ei bod yn credu ei fod yn syniad ardderchog.
- Teimlai'r Cadeirydd, cyn belled na fyddai'r arolwg yn rhy hir, y byddai'n syniad da.
- Cytunodd Mr Watkins y byddai un holiadur yn ddigonol cyn belled nad oedd yn rhy feichus.
- Cytunodd y pwyllgor i gyfuno'r arolygon. Gofynnodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau a oedd y pwyllgor yn fodlon ar y cwestiynau a awgrymwyd gan Mrs Nurton.
- Teimlai Dr Morgan y gallai fod yn ddefnyddiol ychwanegu rhywfaint o arweiniad at yr holiadur yn yr adran sylwadau agored i'r Aelodau gynnwys cyfeiriad i'r adran y mae eu sylw yn ymwneud â hi. Teimlai Dr Morgan hefyd y dylid ychwanegu rhywbeth ynglŷn â fformat a chynnwys yr hyfforddiant a ddarperir. Gofynnodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd a oedd y pwyllgor yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol gofyn cwestiwn tebyg ar ôl yr etholiadau sydd i ddod yn seiliedig ar hyfforddiant sefydlu.
- Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau wrth y pwyllgor y byddai holiadur hyfforddiant fel arfer i'r Aelodau ei lenwi ar ôl iddynt gwblhau eu hyfforddiant i roi adborth. Ychwanegodd Dr Worthington ei bod yn ymddangos bod yr holiadur wedi'i anelu at yr Aelodau sydd eisoes yn eu swyddi yn hytrach nag Aelodau newydd, felly dylid ystyried sut y caiff yr holiaduron eu dosbarthu.
- Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd wrth y pwyllgor y byddent yn cyfuno'r arolygon i'w dosbarthu dros y mis nesaf.
- Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau wrth y pwyllgor fod yr arolwg hwn ar gyfer yr Aelodau presennol nad oeddent yn ailsefyll mewn etholiad ac y byddai Aelodau newydd yn cael holiadur hyfforddiant.
- Roedd y Cadeirydd a'r pwyllgor yn fodlon ar hyn.

## 11 Hyfforddiant Cynefino i Aelodau

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd wrth y pwyllgor fod fframwaith defnyddiol wedi'i ddatblygu gan CLILC ar gyfer yr Aelodau yng Nghymru. Dywedodd Rheolwr

y Gwasanaethau Democrataidd wrth y pwyllgor fod egwyddor i greu amserlen hyfforddiant wedi'i theilwra ar gyfer yr Aelodau a darparu hyfforddiant priodol i'r Aelodau ar yr adeg gywir. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd eu bod yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r Aelodau mewn nifer o fformatau. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y byddai pob Aelod yn derbyn pecyn sefydlu electronig y gallai edrych arno i gael gwybodaeth drwy gydol eu tymor gyda diweddariadau yn cael eu gwneud pan fo angen. Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd wybod i'r pwyllgor am y dyddiadau allweddol, sef 5 Mai 2022 a fyddai'n ddiwrnod pleidleisio, a dywedodd y byddai'r cyfrif yn digwydd y diwrnod canlynol; byddai'r cyfarfod cyffredinol blyneddol yn cael ei gynnal ar 17 Mai 2022. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd wrth y pwyllgor, er ei bod yn ymddangos fel llawer o wybodaeth i'r Aelodau, nad oedd yr holl hyfforddiant yn orfodol neu'n berthnasol ac y byddai cynlluniau unigol yn cael eu creu, er y byddai modiwlau'n cael eu cynnig mor eang â phosibl.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd hyn at ddibenion gwybodaeth yn unig.

- Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd fod hynny'n wir a'i bod wedi teimlo ei bod yn bwysig i'r Pwyllgor weld yr hyfforddiant safonau moesegol o fewn cyd-destun hyfforddiant ehangach.
- Nododd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd fod Cadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi mynychu hyfforddiant yn y gorffennol i gyflwyno ei hun ac egluro rôl y Pwyllgor Safonau a chrosawu'r Cadeirydd i gymryd rhan.
- Roedd y Cadeirydd yn hapus i gyfrannu at y sesiwn honno.
- Cynigiodd Mr Watkins i gefnogi'r Cadeirydd yn y sesiwn hon.

Diolchodd y Cynghorydd Wilcox i'r Cadeirydd, y pwyllgor, a'r swyddogion am eu cefnogaeth yn ystod ei chyfnod ar y Pwyllgor Safonau.

## 12 **Gwe-ddarllediad y Pwyllgor**

[Pwyllgor Safonau 10th Mawrth 22](#)

Daeth y cyfarfod I ben am 7.08pm